------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(251)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch newid yn yr hinsawdd – tynnwyd yn ôl (0 mins)**

**3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm a threfniadau asesu: y camau nesaf (30 munud)**

**4 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)**
Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**5 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 30 mewn perthynas â hysbysu Biliau Senedd y DU (5 munud)**
**NDM5707 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol

Sefydlog 30 – Hysbysu mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2015; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 30, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (60 munud)**
**NDM5709 David Rees (Aberafan)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2015.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymateb Llywodraeth Cymru

**7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5711 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi haneru'r diffyg ariannol fel cyfran o gynnyrch domestig gros;

2. Yn cydnabod bod 41,000 yn fwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru o'i gymharu â 2010 ac mai'r DU oedd y wlad a oedd yn tyfu'n gyflymaf yn y G7 yn 2014; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfrannu at gynllun economaidd hirdymor Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn seilwaith a chreu'r amodau ar gyfer twf yn y sector preifat i greu swyddi a ffyniant.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni ei hamcanion o ddileu'r diffyg yng nghyllideb y DU erbyn 2015 a chynnal ei statws credyd AAA;

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith bod mesurau llymder Llywodraeth y DU wedi arwain at doriad 10% mewn termau real i gyllideb Cymru ers 2010; a'r effeithiau economaidd a chymdeithasol ar gymunedau a theuluoedd yng Nghymru sy'n deillio o hynny.

**Gwelliant 3 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2, ar ôl '2014' ychwanegu ', er bod pryderon o hyd ynglŷn â lefel diweithdra ieuenctid ac effaith contractau dim oriau ar  dlodi ymysg pobl sydd mewn gwaith'.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r effaith gadarnhaol y mae penderfyniad Llywodraeth y DU i godi'r trothwy treth incwm i £10,500 yn ei chael ar economi Cymru, gan arwain at doriad o £800 yn nhreth incwm 1.2 miliwn o weithwyr yng Nghymru, gan arbed 153,000 o bobl rhag talu treth incwm yn gyfan gwbl.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio, a mynd i'r afael â diffyg datblygiad yng Nghymru gydag

ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru er mwyn adeiladu economi cryfach a thecach i Gymru.

*[os derbynnir gwelliant 5, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 6 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 3, ar ôl 'ffyniant' ychwanegu 'a nodi bod Llywodraeth Cymru, er gwaethaf toriadau o tua 30% yn y Gyllideb Gyfalaf, wedi parhau i wneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol ledled Cymru i gefnogi'r economi a'r gwasanaethau cyhoeddus'.

**8 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5710 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu na ddylai lefel Cymru o hunanlywodraeth fod yn is nag unrhyw ran arall o'r DU;

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni cydraddoldeb o ran pwerau a pharch i Gymru yn ystod ei daliadaeth;

3. Yn galw am gydraddoldeb llawn o ran pwerau a chyllid ar gyfer Cymru a'r Alban;

4. Yn galw am drosglwyddo cyfrifoldeb am gyfansoddiad Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Fil ymreolaeth newydd;

5. Yn nodi y dylai'r Bil ymreolaeth gynnwys datganoli'r cyfrifoldeb dros adnoddau naturiol Cymru yn llawn;

6. Yn galw ymhellach am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a datganoli plismona, carchardai, llysoedd a chyfiawnder troseddol; a

7. Yn credu y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael y grym i gefnogi'r rhai sydd angen diogelwch cymdeithasol drwy bwerau cynyddol mewn perthynas â budd-daliadau lles fel yr argymhellodd y Comisiwn Smith i'r Alban.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu'r camau sylweddol a gymerwyd ymlaen mewn perthynas â'r setliad datganoli i Gymru ers 2010, gan gynnwys:

a) refferendwm ar bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

b) sefydlu Comisiwn Silk;

c) cyflwyno Deddf Cymru 2014, sydd wedi datganoli treth stamp, trethi busnes a threth tirlenwi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a darparu ar gyfer refferendwm ar a ddylid datganoli elfen o dreth incwm.

2. Yn croesawu'r cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi sy'n cynnig:

a) datganoli'r cyfrifoldeb dros bob caniatâd cynllunio i ddatblygiadau prosiectau ynni hyd at 350 MW ar y tir ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru;

b) datganoli terfynau cyflymder, rheoliadau bws a thacsi, a swyddogaethau'r Comisiynydd Traffig;

c) cyflwyno model cadw pwerau;

d) datganoli datblygu porthladdoedd;

e) datganoli pwerau yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol;

f) datganoli cymhwysedd dros ddyletswyddau cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus datganoledig; a

g) datganoli trwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir yng Nghymru

3. Yn credu bod yn rhaid inni fynd ymhellach i sicrhau ymreolaeth i Gymru ac yn galw am:

a) datganoli'n llawn y cynigion Silk Rhan 1 sy'n weddill ar bwerau ariannol i Gymru;

b) datganoli'n llawn y cynigion Silk Rhan 2 sy'n weddill ar bwerau deddfwriaethol i Gymru;

c) datganoli cyllid Network Rail mewn perthynas â rhwydwaith Cymru;

d) datganoli terfynau yfed a gyrru;

e) datganoli'r cyfrifoldeb dros ariannu gwariant cyhoeddus ar S4C i'r Cynulliad;

f) datganoli cyfiawnder ieuenctid, plismona a phwerau cyfiawnder eraill yn y tymor hwy;

g) trosglwyddo pwerau i reoli asedau economaidd Ystâd y Goron;

h) trosglwyddo rheolaeth dros ystod o fuddion ar gyfer pobl hŷn, gofalwyr a phobl anabl;

i) datganoli pwerau i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn etholiadau cenedlaethol a lleol Cymru;

j) rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru osod ei gwyliau banc ei hun; a

k) rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Plant Cymru archwilio materion sy'n effeithio ar blant yng Nghymru ond nad ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru.

4. Yn galw am sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar draws y DU i ddrafftio cynllun ar gyfer undeb newydd.

Mae Deddf Cymru 2014 ar gael yn:

www.legislation.gov.uk/mwa/2010/4/contents (Saesneg yn unig)

Mae adroddiadau Silk Rhan 1 a Rhan 2 ar gael yn:

Dogfen Ategol

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

1. Yn nodi cynnig y Cynulliad, a gefnogwyd gan bob plaid a'i gymeradwyo ar 22 Hydref 2014, sy'n amlinellu ei ddyheadau ar gyfer dyfodol datganoli yng Nghymru;

2. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Papur Gorchymyn sy'n amlinellu ein cynigion ar gyfer camau nesaf datganoli;

3. Yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud o safbwynt rhai o'r dyheadau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad ar gyfer datganoli, gan gynnwys model cadw pwerau i Gymru, a phwerau newydd i'r Cynulliad ar drafnidiaeth, adnoddau naturiol ac etholiadau;

4. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y dylai Cymru gael setliad cyllido tecach, ond yn mynegi siom nad yw hyn yn mynd yn ddigon pell i fodloni cais unfrydol gan y Cynulliad i Lywodraeth y DU ymrwymo i ddull penodedig o atal rhagor o gydgyfeirio.

5. Yn mynegi siom ynghylch y diffyg cynnydd o ran datganoli pwerau eraill a argymhellwyd gan Gomisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru: a

6. Yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i roi sylw i'r materion hyn sy'n weddill yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU.

Mae'r papur gorchymyn ar gael yn:

Dogfen Ategol (Saesneg yn unig)

*[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r newidiadau cyfansoddiadol sylweddol sydd wedi digwydd i setliad datganoli Cymru ers 2010 ac yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i anrhydeddu y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi trawsbleidiol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Brif

Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU.

**9 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5708 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):**

Cyfeillio - atal unigrwydd

Defnyddio cyfeillio i atal pobl rhag bod yn unig ac yn ynysig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Chwefror 2015 i'w hateb ar 4 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynaliadwyedd gwasanaethau meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0556(HSS)

**2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllunio'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru o fewn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0565(HSS)

**3. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal i gleifion sy'n aros i gael eu derbyn i'r ysbyty am ofal heb ei gynllunio? OAQ(4)0564(HSS)

**4. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella gwasanaethau i bobl sydd â hemoffilia? OAQ(4)0568(HSS)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ambiwlansys o Loegr sy'n trin cleifion yng Nghymru? OAQ(4)0562(HSS)

**6. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0555(HSS)

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gamau y mae byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG yn cymryd i ailgylchu offer meddygol pan nad oes angen yr offer ar y defnyddiwr cychwynnol bellach? OAQ(4)0566(HSS)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth y GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0560(HSS)

**9. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau bodlonrwydd cleifion yng Nghymru? OAQ(4)0559(HSS)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i sicrhau bod gofal y tu allan i'r ysbyty ar gael i bobl sy'n

dioddef o lymffoedema nad yw'n gysylltiedig â chanser? OAQ(4)0561(HSS)

**11. Aled Roberts (North Wales):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o newidiadau i systemau monitro gwaed ar gyfer cleifion sy'n dioddef o glefyd y siwgr yng Nghymru? OAQ(4)0567(HSS)

**12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)0553(HSS)

**13. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn a fydd yn cymryd lle'r Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru? OAQ(4)0554(HSS)

**14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r opsiynau datblygu proffesiynol parhaus sydd ar gael i feddygon yng Nghymru? OAQ(4)0563(HSS)

**15. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau meddyg teulu i bobl Llanwrtyd a'r cymunedau cyfagos? OAQ(4)0557(HSS)

**Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad**

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.